YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 12] RHAGFYR, 1922 [PRIS 3c

.. CYNHWYSIAD. ..

AR ADEN FFYDD.

Y FFYDD UNDODAIDD.

GAIR YN EI BRYD.

GEIRIAU AWGRYMIADOL.

Y PARCH. HERBERT JONES
(Gyda Darlun).

MARWGOFION.

MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis ; drwy y *Post*, 4s. y flwyddyn. Dantonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

CHANNING HOUSE SCHOOL.

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Boarding and Day School for Girls.

Healthy situation at the top of Highgate Hill. Large Grounds. Work on Modern Public School Lines. Preparation for London University Matriculation.

Apply for Boarding or Day Prospectus to—
Miss ALICE HAIGH, M.A., Head Mistress.

AUTUMN TERM begins SEPT. 19th.

THE STAFF.

Head Mistress—

Miss ALICE HAIGH, M.A. (Manchester).

Resident Mistresses—

Miss A. M. DANIEL, B.A. (Lond.), Honours in History ; Teachers' Diploma.
Miss H. K. FRY, B.A. (Lond.), Honours in French.
Miss G. HARKER (Girton), Natural Science Tripos.
Miss M. JAMES, Higher Froebel Certificate.
Miss C. JEPSON, L.R.A.M., A.R.C.M. Miss F. JONES, B.Sc. (Lond.).
Miss D. H. LETTS (Cantab), M.A. (T.C.D.) *(Non-Resident).*
Miss B. MACLAREN, B.A. (Lond.), Honours in Classics.
Miss A. SUTHERLAND, B.A. (University of Wales), Honours in English.
Miss M. TENCH, Bedford Physical Training College.
Miss E. L. WILLIAMS, B.A. (Manchester), Honours in History, Certificate of Social Science, London School of Economics.

Visiting Mistresses—

Miss ADAMSON (Elocution). Miss A. F. BRETTELL (Elocution).
Miss W. GOODING, L.R.A.M. Miss A. GOODWIN, Member of the R.D.S.
Miss HARE (Dancing). Miss M. HOPE, L.R.A.M., A.G.S.M.
Miss I. THOMPSON, L.R.A.M., A.R.A.M. (Singing).

Matron—Miss MAUD MORSON. *Under Matron*—Miss E. JACKSON.

Number of pupils, about 140.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1922. [CYF. XXII. RHIF 12.

AR ADEN FFYDD.

SYR HENRY JONES.

"*I stood firmly by my shoemaking.*"—Old Memories.

I.

Gwr cadarn—ag ef yn ieuenctyd ei ddydd—
Oedd Henry o'r Cwm, fab Elias y Crydd ;
Fe ranai ei oriau rhwng ysgol y wlad
A phwytho esgidiau yn ngweithdy ei dad ;
Pob pwyth yn ei le, pob ergyd o dde—
A chadarn pob esgid a luniai efe.

'Roedd chwareu ei lond—a direidi di rol ;
A drachtiai o ddysg, fel o ffynnon y ddol ;
Ond cyrchai, bob cyfle, fel aer i'w ystad—
I weithio'n ddiarbed yn ngweithdy ei dad ;
Pob pwyth yn ei le, pob ergyd o dde ;
Ac eiddig dros urddas ei grefft oedd efe.

II.

A dringo a wnaeth mab Elias y Crydd—
Nes cyrraedd teyrngadair athroniaeth ei ddydd ;
Yn llygad ei bwnc yr edrychai'n ddi-ball,
Ac arfau'i resymeg oedd lon a diwall ;
Pob pwyth yn ei le, pob ergyd o dde—
A phobpeth yn gyrru'r gwirionedd i dre.

Yr Ysbryd a'i t'wysodd yn moreu ei oes,
A'i hurddodd yn Athro gwirionedd a moes ;
Mae bendith gwirionedd yn deffro pob dawn ;
A marchog y wawr a gaiff oreu'r prydnawn—
Pob pwyth yn ei le, pob ergyd o dde—
Sy'n hwylio cerddediad y byd tua Thre.

JOHN T. JOB.

Y FFYDD UNDODAIDD.

ANAML y ceir gan Undodwr i siarad llawer am ei gredo grefyddol. Nid yw'r Undodwr cyffredin, fel rheol, yn un sy'n chwennych y "prif-gadeiriau yn y synagogau." Tipyn yn swil ydyw pan y sonir am ei grefydd, ac y mae rheswm lled gadarn i gyfrif am y swildod hwn, sef ofn bod yn dwyllodrus. a gwneud y broffes yn wag-broffes, ac yn fwy na'r bywyd. Nid yw hefyd yn caru gwneud rhywbeth poblogaidd a chwareus o deimlad mor gysegredig a'r teimlad crefyddol. Ei amcan yw gofalu bod mwy o grefydd yn ei feddwl a'i galon na fynegir gan ei wefusau; beth bynnag, nid llai. Ni fedr siarad bob amser ac ar unryw amgylchiad am symudiadau dyfnaf ei galon. Hwyrfrydig ydyw i glochdar ynghylch cyfrinachau Duw. Tuedd ardderchog ydyw; tuedd a'i ceidw rhag llawer o bechodau'r Ysgrifennyddion a'r Phariseaid gynt. Ond gellir gor-bwysleisio tuedd ddaionus gan esgeuluso rhyw wedd arall ar fywyd. Y rheswm, mi gredaf, am nad yw'r Undodiaid yn bobl niferus yw gorweithiad o'r duedd geidwadol hon yr ydym yn son am dani. I ledaenu unryw grefydd rhaid wrth genhadon; a thuedd crefydd os nad yw yn genhadol ei hyspryd yw gwanychu a marw, fel crefydd sefydliadol beth bynnag (*organised religion*). Y mae ffordd arall o edrych ar y pwnge. Os ydym yn credu mai'r ffurf Undodaidd ydyw'r buraf un o Gristionogaeth—os ydym yn credu mai hyn yw'r gwirionedd—y mae angenrhaid wedi ei osod arnom i'w gyhoeddi. Yr ydym yn anffyddlon i'r goleu sydd ynom, yn anffyddlon i ni ein hunain, os na wnawn. Beth ddywedech am berson yn edrych ar ddyn dall yn cerdded at ymyl craig, ac yn gomedd ei rybuddio o'r perigl? Beth feddyliech am feddyg yn gwrthod gosod ei wybodaeth oreu at wasanaeth ei gleifion? Beth ddywedech am ddyn talentog yn cuddio ei dalentau mewn napcyn? Yn yr un modd y mae yn ddyletswydd arnom i osod y wedd Undodaidd ar grefydd ger bron y byd, nid er mwyn gogoniant sect, ond er mwyn lledaeniad y gwirionedd; nid er mwyn chwythu corn enwad, ond er gwneuthur ein cyfraniad tuag at ffydd fawr y byd.

Beth ydyw Undodiaeth? Pa le y mae'n gwahaniaethu oddiwrth yr enwadau iawnffyddol fel y'i gelwir hwynt? Y *mae* gwahaniaeth rhyngom a hwynt mewn credo a thueddiad crefyddol, neu ni fuasem y tuallan i'r cylch efengylaidd. Dywedir weithiau nad yw'n bwysig pa beth a gredir, y peth pwysig yw byw yn iawn. Ond camsyniol ydyw'r gair yma. Y mae bywyd pob dyn yn ffrwyth yr hyn a grêd efe yng nghysegr sancteiddiolaf ei enaid—nid yr hyn y mae'n broffesu gredu, dealler, ond yr hyn a gred rhyngddo ef a Duw. Yr hyn yw dyn yn ei *feddwl* o ddydd i ddydd, sydd yn penderfynu ansawdd ei gymeriad.

Os yw dyn yn credu mewn Duw partiol, mewn *Swltan* o Dduw, yr hwn sydd yn ddeddf iddo'i hun, neu mewn Duw creulon a thra-

haus, yn ddibetrus, y mae ei gred yn rhwym o'i wneud yn ddyn hunanol, atgas, a chul. Yr wyf yn golygu wrth "gredu," nid proffesu credu ond credu yn wirioneddol. *Y mae dynion yn aml yn well na'u credo grefyddol.* Pe bae pobl wedi actio'n uniongyrchol ar eu gwahanol gredoau yn y gorffennol, fe fuasai'r gorffennol yn bennod dduach ei hanes nag ydyw. Ond y rhan fynychaf yr oedd pobl yn well na'u proffes, a diolch am hynny, oherwydd ni fuasai'r un Undodwr ar gael heddyw pe bae'r mwyafrif wedi actio i fyny i'w proffes grefyddol.

Fodd bynnag, ar y llaw arall, os yw dyn yn credu yn wirioneddol mewn Tad cariadlawn y mae ei gred yn rhwym o ddylanwadu ar ei fyw, gan ei wneud yn gymeriad tyner a chariadlawn ei hun, yr un fath a'i dduw. Os am fyw, felly, yn y modd goreu, rhaid credu'r goreu i ddechreu. Y mae'n amhosibl credu'r îs, a byw yr uwch; ond os y credwch yr uwch, y mae yn bosibl i chwi ddringo ato, a'i fyw maes o law.

Y mae Undodiaeth, ynte, yn amcanu at geisio gwybod y goreu a'i gredu am Dduw, Crist, Dyn, a Thragwyddoldeb. Ceisia wahaniaethu rhwng athrawiaethau hanfodol crefydd a'r rhai y gellir eu hepcor, rhwng y gwirioneddau sylfaenol a'r pethau adeiledir arnynt, rhwng "pethau trymach a phethau ysgafnach y gyfraith." Ni fyn bwysleisio ond yr hanfodion mewn Cristionogaeth. Cydnebydd fod llawer o athrawiaethau yn y ffurf boblogaidd ohoni yn cynnwys gwirionedd, ond ni fyn wasgu ar feddyliau pobl ond y rhai gredir eu bod yn hanfodol (*essential*). Nid yw'r rhan fwyaf o'r enwadau crefyddol at eu rhyddid i wneud y dewisiad hwn. Rhaid iddynt hwy dderbyn y gyffes ffydd yn ei chrynswth—cyffes a phob cymal o honi yn "anhebgorol angenrheidiol" er mwyn iachawdwriaeth. Y mae pob athrawiaeth ynddi yn gyfwerth, a rhaid derbyn pob un ohonynt heb gwestiyno pa un a yw yn hanfodol neu beidio. Ond dywed Undodiaeth heb gryndod yn ei llais, na phetrusder yn ei meddwl, nad oes ond un gwirionedd mawr hanfodol yng nghrefydd Iesu—un gwirionedd sydd yn ddigon llydan ac yn ddigon dwfn i gynnwys yr holl athrawiaethau ereill i gyd—Tadoldeb Duw. Dyma sylfaen yr holl adeilad, a dim arall, cerrig llanw yw'r gweddill.

"Ond," meddai rhywun, "y mae'r enwadau ereill hefyd yn credu fod Duw yn Dad i bawb." Digon tebyg. Ond pa sut y maent yn credu hynny? Pa fodd? A ydynt yn credu mai dyma'r unig wirionedd sydd yn cyfrif? A ydynt yn pwysleisio hyn fel calon crefydd yr Iesu? Nag ydynt, mor bell ag y gwn i. Iddynt hwy, rhyw wirionedd sydd yn hongian wrth bethau ereill ydyw; y mae'n dibynnu ar wirioneddau gyfrifant hwy yn bwysicach. Lle israddol roddir i Dadolaeth Duw yn eu *system* hwy. Ond dywed Undodiaeth yn eglur, dyma swm a sylwedd datguddiad Iesu Grist—Duw yn Dad, swm a sylwedd y gyfraith a'r proffwydi.

Felly, fe welir fod cryn wahaniaeth rhyngom a'r enwadau iawnffyddol yng nghylch pwysigrwydd a gwerth y gwahanol athrawiaethau. Tardd llawer athrawiaeth arall o'r syniad o Dadoldeb Duw,

megis brawdoliaeth dyn—iachawdwriaeth pawb—ond Duw yn Dad ydyw'r syniad hanfodol iddynt oll.

Dyma wreiddyn ein crefydd, canolbwynt pob ffydd, bywyd pob gobaith, sylfaen pob hyder, ac anadl einioes ein bywyd ysprydol. Nid wyf yn gosod terfyn ar ddyfnder fy nghred yn Nuw fel Tad. Ni oddefaf i gredo, nac eglwys, na phab, i fesur allan i mi hyd a lled a dyfnder fy hyder yng hariad y Nefol Dad. Nid oes sect, enwad, na chynghor, boed ef hen neu ddiweddar, yn mynd i osod i lawr i mi ffiniau i'r Deyrnas Fendigedig sydd yn dyfod, na sylfeini i'r Ddinas Sanctaidd y breuddwydia ac y gobeithia fy enaid am dani. Ni osodaf derfyn ar fy nghred yn Nuw Dad. Y mae'r gwirionedd yn ddigon ar gyfer fy angenion dyfnaf. Credaf ynddo a'm holl galon. Credaf ynddo a'm holl feddwl. Ceisiaf ei addoli a'm holl enaid. Ceisiaf ei wasanaethu a'm holl nerth. Dangoswch pa fodd y gallaf ei garu yn fwy, ei wasanaethu yn well, ac mi geisiaf eich ufuddhau.

Deil Undodiaeth y gwirionedd hwn fel delfryd i ymgyrhaedd ati, nid yn unig fel credo ar y wefus, ond fel delfryd i'w gwneud yn ffaith ym mywyd dyn, a chymdeithas, a chenedl. Daliwn pe bae'r byd wedi tyfu i fyny ati, y byddai Teyrnas Nef yn ffaith ar y ddaear; y cenhedloedd wedi troi'r cleddyfau yn sychau, heddwch yn teyrnasu o fôr i fôr, dynion yn frodyr i'w gilydd, celf a gwyddor, miwsig a barddoniaeth yn blodeuo ymhob tir, a gwyneb y ddaear yn adlewyrchu rhyw gymaint o wyneb y nef.

Un peth ymhellach. Dywed Undodiaid weithiau nad oes ganddynt yr un gredo. Camsyniad yw hyn. Oes,

Y mae gennym Gredo,

oblegid yr ydym yn *credu*—yn credu Tadolaeth Duw. Felly dyna gredo. Ond, ni ddywed Undodiaeth fod ei chredo hi yn derfynol, fod yr hyn o wirionedd sydd ganddi heddyw i fod yn derfynol trwy yr oesau sydd i ddod. Eithr dywed fel hyn: Dyma fy nghredo—ond fel yr eanga gwybodaeth, fel yr enilla dyn feysydd newydd mewn gwyddor a chelf, a changhenau ereill, digon tebyg y bydd rhaid eangu'r gredo hefyd, a'i haddasu ar gyfer datblygiadau pellach. Credo ynte, ond nid credo sefydlog, fel nas gellir byth ei lledaenu pe byddai eisiau, ar gyfer datguddiadau mwy o'r ewyllys Ddwyfol.

Y mae credoau'r enwadau ereill yn derfynol, ac nid oes cyfnewid i fod arnynt hyd derfyn amser. Nid oes rhagor o oleuni i fod; nid oes datguddiad pellach i fod. Gall dysgeidiaeth ledaenu ei therfynau, gall gwybodaethau newyddion agor meddyliau pobl yn y dyfodol, gall dyn ddod i ddeall mwy am ddeddfau natur, deddfau'r meddwl, a deddfau'r byd ysprydol; ond yr un yw'r gredo iawnffyddol i fod. Dyna'r gwahaniaeth rhwng credo Undodaidd a chredo Drindodaidd.

Gwel Undodiaeth y systemau perffeithiaf sydd gennym heddyw, y credoau uwchaf sydd gennym—yn Undodaidd ac yn Drindod-

aidd—gwel hwynt oll yn diflannu rywbryd i roi lle i ddatguddiadau gogoneddusach Duw. Fel y canodd Tennyson—

> "*Our little systems have their day,*
> *They have their day and cease to be;*
> *They are but broken lights of Thee,*
> *And Thou, O Lord, art more than they.*"

Y mae Undodiaeth yn ymwybodol o hyn. Nid ei gwaith yw gogoneddu sect nac enwad. Nid sect yw, ond Ffordd. Edrych ymlaen at eglwys fawr y dyfodol—eglwys rhy fawr i'w dynodi gan unryw enw sydd gennym ni heddyw—eglwys a dŷn y goreu o grefyddau'r gorffennol oll—eglwys a delfrydau'r Iesu wedi eu sylweddoli i fesur mwy nag erioed ynddi; eglwys na fydd yn cau allan neb a fo'n chwilio'r gwir; eglwys gyfoethog o brofiadau dwfn; eglwys na fydd yn gofyn ond un peth oddiwrth ei phlant, sef, "Calon lân yn llawn daioni," a'i haddoliad yn troi oddiamgylch y Tad Nefol, i'r hwn y byddo'r gallu a'r gogoniant hyd byth.

D. Cellan Evans.

Northampton.

GAIR YN EI BRYD.

Gan y Parch. T. O. Williams, B.A.

Traddodwyd yn Hen Dy Cwrdd, Aberdar, Tachwedd 23ain, 1922.

Ni roddwyd testun imi. Pe buaswn wedi'i gael nid oes sicrwydd y glynwn wrtho. Un peth sy'n sicr, y mae'n hyfrydwch mynd hwnt ac yma ar dro a gair ar antur sydd gennyf. Wedi'r drin y mae popeth yn dadfeilio, y mae'r rhyfel wedi siglo popeth i'w sail, a chewch y Deon Inge yn ei 'Outspoken Essays' yn gwneuthur ei 'Confessio Fidei,' a'r Athro W. J. Gruffydd yn y 'Llenor' yr un modd yn ei ysgrif ar 'Wrthryfel ac adwaith.' Y maent ill-dau yn teimlo, ellid tybio, fod dynoliaeth fel y Prif Weinidog 'heb wybod ble y mae.'

'The times are out of joint.' Edrychir gyda thosturi ar grefydd. Y mae'r miliynau tu allan i byrth yr eglwys, ac y mae mwyafrif mawr gennych yma a ystyriant hi yn ddiraddiol, yn ofergoeledd i droi i mewn. A'r drwg am dani, o'r nifer y sydd yma ni chredant ddim yn arbennig. Yr ym yn y niwl. Y mae eglwysyddiaeth yn 'spent force.' Pwy ddydd darllenwn lyfr 'The Army and Religion,' a dengys o ba gyfeiriad y chwyth y gwynt. Cesglir ynddo ein

bod yn annysgedig, nad ydym yn meddwl, fod safon moes yn isel, na wyddom ystyr Cristionogaeth a Chrefydd, ac fod yna ryw fateroliaeth cyffredin yn ein golwg ar fywyd a'i amcanion.

Ar y llaw arall maentumia H. G. Wells yn ei lyfr 'The Salvaging of Civilization,' a chofier, y mae'r enw'n awgrymiadol mai byd ofnadwy yw byd dynoliaeth, a dywed, 'agoraf fy newyddiadur bob bore gyda chalon drom ac ni chaf ond y dim lleiaf ran amlaf i'm cysuro.' Awgryma, gyda llaw, fod angen 'Beibl newydd' arnom, a chofier, a dywedyd y lleiaf, y mae rhywbeth yn heifeiddiol yn y syniad.

Dywedai Drummond gynt, 'y mae yna fywydau talentog a difrifol heddyw na fynnant enwi Crist. Siaradaf am danynt gyda pharch. Nid yw llawer ohonom yn deilwng i ddatod carrai eu hesgidiau. Ond oherwydd fod credo y capel cyfagos yn watwar ar grefydd, gwrthodant gydnabod gallu'r Crist Byw. O! guled yw'r fath eangder."

Yn ol Deon Inge, a chyfrif pennau, nid yw'r werin na Chatholig na Phrotestant, ond pagan. Anodd anwybyddu'r tystiolaethau hyn. Apelia'r Esgob Gore atom 'i feddwl drosom ein hunain, ac i feddwl yn rhydd,' tra deil arall fod 'dyfodol yr eglwysi'n dibynnu ar eu gallu i ddarbwyllo nid y dysgedig yn unig ond y gweithiwr Sosialaidd yn ogystal mai eu cyfundrefn hwy yw'r addasaf i argymell y Nazaread ar fywyd y genedl ac ar fywyd Ewrop.'

Y mae'n anodd gwneuthur hyn ellid tybio. Nid condemnio, nid darnio, nid digaloni, yw fy amcan, ond ceisio gan ein henwad ni edrych yn wyneb ffeithiau, ac addefaf nad yw'r olwg yn galonogol. O chwilota deallaf yn well ymdrech y teidiau. Y mae Jenkin Jones a Dafydd Llwyd, Castellhywel, a Gwilym Marles yn enwau byw'n yr Ysmotyn Du heddyw, a chredaf y medr bywyd ac ymdrech y triwyr cyntaf hyn esbonio paham na threiddiodd pregethu Daniel Rowland tuhwnt i'r ffin. Llama fy nghalon o wybod am danynt, ond y drwg am dani gwn fod eglwys sydd wedi gorffen prifio wedi dechreu marw.

Ni phetrusaf ddywedyd nad ydym ar y blaen mwyach. Y mae *tors* y teidieu yn nwylo ereill oherwydd ein brad ni. Ni feiddiwn amau nad yw geiriau Martineau'n wir bellach, 'fod ein cynulleidfaoedd wedi ymbriodi mor dyn a'u 'type' hwy o uniongrededdag ydyw proffeswyr Cyffes Ffydd Westminster a'u rheol helaethach.' Rhagor na hynyna, teimlaf nad yw'r do bresennol i'w gymharu a'r hen deidiau o ystyried ei chyfleusderau. Nid yw'n darllen na meddwl. Nid oes reswm ganddi am y ffydd sydd ynddi. Nid pell o'r gwir y sawl a gymharodd yr oes i 'Puffed Pastry.'

Y mae brwdfrydedd y teidiau wedi tawelu; y mae'r ymchwil am y gwir wedi arafu. Nid oes afael dyn a dwys gan ein heglwysi ar y werin. Yr ym mewn perygl o werthu'n *henaid* am 'respectability.' Yng ngeiriau'r Athro Gruffydd 'heresi yw dull ac amod twf pob crefydd, ac mai enw arall ar farwolaeth ydyw awdurdod ac uniongrededd.'

Nid athrawiaeth anghywir sy'n dolurio yn gymaint a cholli brwdfrydedd, colli'r ysbryd clir a thanbaid hwnnw gan farweiddio ar y ffordd. Y mae'r menter wedi mynd. Nid 'pioneers' mohonom ond 'ceidwaid y ffydd.'

Y mae'r adwaith (*reaction*) wedi dechreu. Yr ym yn ofni'r gwir neu wedi blino'i ddilyn, a gellir cymhwyso geiriau'r Esgob Berkeley atom, 'Truth is the cry of all, but the *game* of a few.'

Na thybier mai fy amcan, ys dywedai rhywun, yw tynnu duwiau'r teulu i lawr a'u rhoi yn y cwpwrdd. Ni chredaf y dylasem ychwaith gymhwyso hwyl i'r awel hon neu'r awel arall. Nid rhyw gyfleyddiaeth (*opportunism*) mo'n crefydd; nid rhyw fath o farddoniaeth mohoni sy'n euro a phrydferthu bywyd drwy'i baentio mewn lliwiau teg; 'It is not a wash of rose colour spread over the dark

realities of the world.' Pan ofynir ini ble yr ym, dylasem fedru ateb ein bod lle mae *egwyddor* yn cyfrif, ac onid oes gennym egwyddorion nid yn unig yn werth marw drostynt ond egwyddorion sy'n werth eu byw ym mywyd beunyddiol pobun ohonom. Ofer pob ymddangosiad, a gwell gostwng y 'flag.'

Ofnaf ein bod ni bron cylchu'r Gwrthryfel, ac ein bod bellach rywle yn y trydydd cyfnod, ys dywed yr Athro Gruffydd, 'lle pery'r arwyddeiriau a banllefau'r gâd yn siboleth yr anturiaethwyr,' oherwydd 'llosgwyd ymdrechion a diodde fiannau cyfnod cyntaf y Gwrthryfel mor ddwfn i ymwybyddiaeth a chof y werin yn gyffredinol fel y mae'r hen arwyddeiriau â digon o dân ynddynt eto i ferwi'r gwaed, er nad oes digon o oleuni ynddynt bellach i oleuo'r deall.'

'Llawer gwir goreu'i gelu,' ond y mae'n bryd bellach i ddynoethi'r gwir er chwerwed yw. Nid yw llawer o'n Undodiaeth ond ail-floeddio hen arwyddeiriau'r teidiau, ac nid ym nemor gwell na llawer i lordyn yn cael yr etifeddiaeth heb ei theilyngu ond ein bod yn blant anheilwng ein teidiau. Nid yw 'stamp' y cedyrn gynt ar ein cymeriadau moesol. Y mae'r hen golofnau wedi mynd, ac hyd y gwelaf i, nid oes ond adwaith am dani. Y mae'r llif yn araf lonyddu, ac ni buasai'n syn gennyf weld arwyddeiriau a gweledigaethau'r teidiau'n troi'n llyffetheiriau i ryw oes sydd heb ei geni eto.

Y mae cyfnewidiad yn anhepcor bywyd. Edrychwch ar y gwenith ar y maes neu'r afal ar y pren. Onibai fod y pren yn deilio a blodeuo ni ddisgwylid afal. Gormod o'r aros hwn sydd gyda ni. Hyd y gwelaf nid oes dim cyfnewid wedi bod er's dros hanner canrif. Byw ar ein 'reserves' yr ydym. Hwyrach fy mod yn methu, ond y mae yna *ddifrawder* a *diffyg ymchwil am y gwir* yn yr holl eglwysi.

Ni wn i mo'ch banes yn Aberdar, ond y mae'r un stori'n wir, mae'n debig. Y mae difrawder fel 'llaw farw' wedi cyffwrdd a phob eglwys bron. Y maent 'ar y llyfrau' cystal ag erioed, ond ar y llyfrau y maent ac nid ar y seddau y Sul, nac yn llawn brwdfrydedd drwy gydol yr wythnos. Y mae gwneuthur 'Timber Yard' o eglwys Dduw yn ffasiynol heddyw. Nid oes angen dim rhagor i ategu'r ffaith na throi i mewn ar y Sul a gweld.

Mwy hyd yn oed na hynyna yw'r diffyg ymchwil am y gwir. A sylwasoch erioed ar ddyn yn teithio—y mae wedi blino ac y mae yn fodlon i arall i'w basio. Tebig ydym ninnau. Yr ym wedi blino dringo. Y mae'r tân wedi llosgi allan. Gwir i'n teidiau ddioddef, a brwydro, a gorchfygu, ond er ein bod yn llawenhau'n eu hymdrech y mae bywyd esmwyth, bywyd tawel yn felys. Ni welsom ni y goleu clir. Ni chawsom brofiad cyfoethog fel hwy. Yr ym yn fodlon cadw'n henwau ar y llyfrau a chyfranu ond rhyw 'spiritual luxury' yw addoliad, ac y mae'r gwir fel hudlewyrn yn mynd ffordd hon a ffordd arall, ac mae'i ddilyn yn costio mwy nag a fedrwn fforddio o amser ac ymdrech. Mewn gair, erys Undodiaeth heddyw a'i dwylo mhleth gan suogannu'n ddistaw bach, rhag ofn y clyw neb hi, arwyddeiriau a'r banllefau gynt gan gredu na ddisgwylir dim rhagor oddiwrthi.

Dyna'r olwg ar bethau, ac addefaf fod fy nghalon yn gwaedu o weld y difrawder a'r diffyg ymchwil.

Y mae'n gri gennych ym Morganwg fod y pwlpudau'n wâg. Arall yw ein cri ni, fod yr Eglwysi'n wâg. Mynych iawn y saethir atom oherwydd fod broydd breision y Sais yn dygymod yn well a ni na dyffrynoedd rhamantus ein gwlad ein hunain. Nid yr arian yw'r pwnc mawr ond y difrawder llethol sy'n nodweddu'n heglwysi, a gwn fod amryw fel finnau'n gofyn yn ddifrifol i'w enaid ei hun, 'Ai gwastraffu bywyd ydym yntau'i *fyw'n* llawnach nag y tybiwn.'

Na thybier fy mod am foment yn edifarhau am ddim. Nid y *neges* sydd ar fai. Ni chredaf ychwaith y

trosglwyddir gwirioneddau'r Efengyl o lygad y ffynnon yn symlach ac yn loewach nag y gwna'n henwad ni, os mynner. Mewn awr wen pan roddwn gyfle i Dduw, y mae rhyw deimlad yn y galon tebyg i deimlad Emerson gynt, 'The soul's thrill at the approach of the divine,' a dyna ni fedraf gysoni—*eglwysi gwâg a neges mor ddwyfol*.

Hyd y gwelaf, y mae eisiau *brwdfrydedd menter* ac *ysbryd ieuanc* arnom.

Addefir yn gyffredin nad oes frwdfrydedd yn ein heglwysi. Ymddangoswn fel pe baem wedi hanner edifarhau coleddu y syniadau a goleddwn. Yr ym mor 'half-hearted nes temtio'r gelyn i ymosod arnom. Dyna'r olwg a welaf i ar eglwysi pob enwad. Nid oes dim yn fuddugoliaethus yn ein rhodiad na'n bywyd. Nid oes frwdfrydedd dwyfol yn llanw'r galon. Efengyl Cariad yw Efengyl Iesu, ac o na fedrai gwres cariad ennyn ryw *frwdfrydedd* ynom. Ar ddechreu adeg etholiad, nid yw Rhyddfrydwr na Cheidwadwr na Llafur yn ddim, ond fel y mae'n gwresogi, y mae pob un yn barod i sefyll i fyny dros ei liw. Y mae'r gwres yn codi. Y mae'r brwdfrydedd yn *catching*. O na chaem frwdfrydedd lliw a phlaid ac etholiad i eglwysi'n gwlad, a phe gwnaem gymaint dros ein heglwys ag a wnawn dros ein plaid buasai gwedd arall ar yr ysmotyn du, a'r brwdfrydedd wedi llosgi pob difrawder ymaith.

O gael brwdfrydedd, fe geir *menter*. Cofiaf yn dda am dro yn y coleg gynt. Yr oedd llawer ohonom yn 'neutral.' Nid oeddem wedi meddwl llawer am y cweryl rhwng y senedd a chyngor y myfyrwyr, ond un hwyrnos aethom i'r Common Room. Ymhen ennyd, teimlwn y brwdfrydedd yn 'catching,' a chyn pen chwarter awr yr oedd *menter* yno. Credaf, pe gofynnid imi, y drylliem bob ffenestr yn yr hen Goleg annwyl ger y lli. Waeth beth oedd yr achos. Nid yw o bwys bellach, ond o ennyn y brwdfrydedd daeth *menter* i bob calon. Y mae eisiau cofio hyn. Pe cawn ni'r brwdfrydedd i'r Eglwys, buasai'n rhaid iddo fyrlymu allan ar aden *menter*, a chofier nid *menter* i ymosod ar enwad arall ond *menter* i chwilio am y gwir, *menter* i ddryllio castelli gormes, *menter* i wneuthur fel yr awgrymodd rywun—"The kingdom of God is within, but we must make it without."

Y mae eisiau cael *menter* i symud y pwyslais ym myd crefydd a'n hatal rhag *rhydu* yn y pwlpud. Credwn fod pob agwedd ar y gwirionedd wedi'i ddarganfod ac nad oes dim i ni wneuthur ond dywedyd Amen i ymdrech ereill. Y mae eisiau cael *menter* i fynd o'r hen rigolau gan bregethu efengyl a gyfnewidia fywyd personol pob un, a ddwg heddwch ac ewyllys da i gymdeithas, ac a dyrr i lawr y ffiniau dodi sydd ar lwybr y werin. Nid rhywbeth mo'n crefydd a arllwysir i fywyd, ond hinsawdd yr enaid, "The climate of the soul."

Nid yw pedair blynedd yn ddigon i bellhau'r atco am y Rhyfel oddiwrthym, a chredaf ei fod wedi dysgu un peth o leiaf i ni—gwerth ein hieuenctid—aeth yr hen i'r mur yn gynnar yn ffosydd Ffrainc. Rhaid oedd cael yr *ysbryd ieuanc*. Ni ddywedaf nad oedd brwdfrydedd a *menter* yn yr hen, ond rhaid oedd wrth ysbryd ieuanc, a dyna sydd wedi bod yn ymwneud a chrefydd o'r adeg fore hyd yn awr — *yr ysbryd ieuanc hwn y soniaf am dano*. Ys dywed J. M. Barrie yn ei araith i fyfyrwyr St. Andrew's, 'Yr wyf am i chwi ddal fod yr amser wedi dod i ieuenctid hawlio partneriaeth a'r hen.'

Tuedd popeth yw syrthio i ddwylo'r hen—ac y mae'r hen wrth natur yn *geidwadol*. Y mae'n henwad, fel y llywodraeth, yn caru *tranquillity*—y mae'n *anæmic*. Ac os ydyw'n hawlio byw, rhaid iddo gael ei danio a'r ysbryd ieuanc hwn —'the spirit of youth'—yr ysbryd a fyn brofi popeth, yr ysbryd sy'n cerdded yn frwdfrydig yn ei ymchwil

am y gwir, yr ysbryd a *meuter* ynddo, a chofier 'ysbryd ieuenctid' ydyw ysbryd cariad.

Nid yw'r cyfan hwyrach ond siom a breuddwyd calon ieuanc, ond hoffem fel diweddglo alw eich sylw at eiriau Glen Frank yn "The Century," am eu bod yn cynnwys cnewllyn yr hyn a geisiaf wasgu arnoch:—"The greatest religious advance will be brought about by the religious leadership which takes all of life for its field, breaks down the artificial distinction between things sacred and things secular and invests the whole round of human interests with spiritual significance, refusing to think of religion as a mere department of life or an alien something thrust into life. In short genuine religious leadership plays for the enrichment, the increase and the moral unity of life.

"The religious leader of the future must be less the critic and more the creative interpreter. The world is waiting for the religious leader who can talk economics so that men will feel in the presence of God."

"GEIRIAU AWGRYMIADOL."

Ai tybed y cymer darllenwyr YR YMOFYNYDD ddiddordeb digonol yn yr iaith Gymraeg i ddarllen ychydig nodiadau ar ystyr geiriau? Gwn yn burion mai gorchwyl go sych i'r mwyafrif ohonynt fyddai myned drwy Ramadeg Syr John Morris Jones, ond credaf er hynny y byddai astudiaeth ddiflino a manwl o'r llyfr hwnnw yn gyfrwng i agor maes cynhyrchiol o flaen Cymro myfyrgar a garai lefaru yr heniaith yn gywir, a'i hysgrifennu yn ddillyn.

Nid fy amcan yn awr yw annog y dibrofiad i ddilyn llinach geiriau yn ol yr iaith Aryaidd, nac ychwaith i olrhain y berthynas sydd rhyngddynt a'u cyfneseifiaid Celtig. Yr wyf am aros yn nes gartref, ac am geisio tynnu'r llen oddiar ryw hanner dwsin o eiriau hollol gynefin. Priodol feallai fyddai cychwyn gyda'r enw y balchiwn fel cenedlgarwyr ynddo, yn enwedig mewn Eisteddfod neu wrth ddathlu Gwyl Dewi. Os oes eithriadau yn ein mysg gellir priodoli hynny fynychaf i ddiffyg diwylliant meddwl, amddifadrwydd o wladgarwch o'r iawn ryw, neu brinder o'r ddawn gwerthfawr a elwir synnwyr cyffredin.

"Cymro" yw'r gair y cyfeiriaf ato. Ynddo ei hun nid yw hwnnw yn golygu fod pobl y Dywysogaeth o un gwaed, nac o'r un iaith. Gallent fod felly neu beidio. Hysbys i bawb ohonom fod trigolion Sir Benfro yn hanfod o drasau gwahanol, a bod gwahaniaeth hefyd yn yr iaith lafar. Yn ystyr hynaf y gair gallai pobl dehau'r sir hawlio eu bod hwythau yn Gymry yn ogystal a'u cymdogion yn y gogleubarth, gan eu bod wedi ennill eu braint drwy hir wladychu mewn congl arfordirol o'r Fro gyntefig, ac onid Penfro y gelwir eu gwladychfa hwy ben bwygilydd? Pobl o'r un fro yw "Cymry," a diddorol i mi, beth bynnag yw gwybod mai dyna'r ystyr roddid i'r gair yn y chweched ganrif, os ydym i goelio haneswyr diweddar.

"Diwygiwr." Deillia o "diwyg," sef dull, neu wedd, neu ffurf; felly golyga diwygiwr un sydd a'i fryd ar newid mudiad neu sefydliad. Cred yn egwyddorion sylfaenol y cyfryw,

ond gan ei fod yn argyhoeddedig bod y ffurf wedi troi yn rhwystr i ledaeniad yr egwyddorion fe ymegnia i roi i'r mudiad neu'r sefydliad ffurf fwy cyfaddas i angenion yr oes. Er y cyfrifid ef yn freuddwydiwr, ac o bosibl yn derfysgwr, ei amcan yw perffeithio'r mudiad, a thrwy hynny hyrwyddo ei wir gynnydd. Ceir toreth o engreifftiau eglurhaol nid yn unig ar faes hanes, ond hefyd o fewn cylch sylw a phrofiad pob darllenydd, fel nad oes angen i mi ymhelaethu.

"Tragywydd." Ffurfir ef o "tra" a "gwydd." Gwelir ystyr y blaenddod yn "tramor," h.y., tuhwnt i'r môr. Os "gwydd" yw'r gwreiddyn golyga tuhwnt i'r hyn a welir a'r llygad, ymlaen ac yn ol. Nid oes a fynno ag amser yn uniongyrchol fwy na'r gair Seisnig *eternal*.

"Adeilad." Ystyr y ferf "eilio" yn yr Oesoedd Canol ydoedd "plethu" fel y gŵyr y sawl sydd wedi darllen Cywyddau Dafydd ap Gwilym. Rhywbeth wedi ei blethu oedd adeilad. Eheda'r meddwl effro yn naturiol yn ol i gyfnod pryd y gwneid preswylfeydd dyn ac anifail o wiail plethedig wedi ei ddwbio a llaid. Y mae'r ystyr wedi newid ynghwrs y canrifoedd. Nid gwiail ddefnyddir bellach i wneuthur aneddau a neuaddau, ond meini o amryw fathau. Cynorthwyir ni gan air o'r fath i sylweddoli bod y creadur o ddyn wedi symud ymhell o'r cyflwr yr oedd ynddo unwaith.

"Beddrod." Y mae'r rhan gyntaf yn ddealladwy i bawb, ond aneglur yw'r rhan ddiweddaf "rod." Diau mai cytras (*cognate*) ydyw o'r gair Gwyddelig "rath," sef caer gron o bridd pentyredig. Tebyg mai dyna yw gwraidd yr enw Amroath. A chaniatau fod y ddamcaniaeth hon yn gywir awgryma "beddrod" garnedd o bridd a osodwyd uwchben gorweddle'r marw, fel arwydd o barch.

"Diwylliant" o "di" a "gwyllt." Y cwrs o ddwyn rhywbeth o'r sefyllfa wyllt yr oedd ynddi. Gwyr meithrinwyr coed â llysiau y gellir drwy ofal a dyfalbarhad wneuthur ci-ros yn bersawrus, ac afallen sur yn chweg. Gwelodd rai ohonom cyn hyn ddynion praff a grymus yn defnyddio bwyell a llif, caib a rhaw, er clirio boncyffion a cherrig, ac wedyn yn llosgi'r prysgwydd a'r mieri nes gwneuthur y diffeithwch yn dir cnydiog.

Cymer rhywbeth tebig le yn hanes feddyliol a moesol dyn yn ol tystiolaeth dynion o welediad clir ac ymchwiliad manwl. Yn ei lyfr olaf, ("Science of Power") galwodd Mr. B. Kidd sylw arbennig at y cyfnewidiad mawr gynhyrchwyd ynghydol cenhedlaeth ar fywyd Japan gan syniad newydd am eu neges a'u dyletswydd. Ryw bythefnos yn ol clywais genhadwr sydd wedi treulio yn agos deugain mlynedd ar Fryniau Khassi yn son am y gwahaniaeth anrhaethol yng nghymeriad y bobl yno er pan sefydlwyd y Genhadaeth yn eu mysg. Yng Ngorffenaf diweddaf dathlwyd Iwbil Coleg Aberystwyth. Cyn ei sefydliad nid oedd nemawr o fanteision diwylliant ar raddfa uchel yng nghyraedd gwerin Cymru, ond er yr adeg honno y mae llu o feibion a merched diwylliedig wedi myned allan o'r Ysgolion Canolradd ac o Golegau'r Brifysgol, ac y maent wedi gwneuthur cryn lawer eisoes i greu awydd am fwy o ddiwylliant o Fynwy i Fon.

Mae diwylliant bellach yn rhan bwysig o gri gwerin Cymru sydd yn ymysgwyd yn raddol o gaethiwed canrifoedd, ac yn dyheu am ryddid a chyfiawnder er mwyn cael cyfle i arwain bywyd helaethach a glanach.

WILLIAM GRIFFITHS,

Southgate, Aberystwyth.

[Y mae yn dda gennym hysbysu fod y Dr. Griffiths, wedi addaw cofio yn aml am YR YMOFYNYDD. Y mae iddo groesaw mawr.—Gol.]

Y PARCH. HERBERT JONES.

Yr ydym yn y cylch Undodaidd Cymreig wedi gorfod lawer gwaith y blynyddoedd diweddaf hyn, ffarwelio a llawer o'n gweinidogion ieuainc, y rhai sydd yn llanw cylchoedd pwysig yn Lloegr a'r Iwerddon. Profiad newydd yn ein hanes, er hynny, ydyw croesawu un o honynt yn ol i Gymru. Dyna paham y mae yn fath lawenydd gennym ddeall fod y Parch. Herbert Mhrif Ysgol Victoria, a'r Home Missionary College, Manchester. Derbyniodd alwad i Hinckley, a dechreuodd ar ei weinidogaeth yno Gorffennaf 5, 1914, mis cyn torri allan y rhyfel, fel olynydd i'r diweddar Barch. T. J. Jenkins.

Cydnabyddir, ar bob llaw, fod ei weinidogaeth yma wedi bod yn un hynod o ffrwythlawn. Gwelir fod



H. C. Jones, wedi derbyn galwad unfrydol o eglwys Undodaidd y West Grove, Caerdydd, a bwriada ddechreu ar ei waith yno yn nechreu y flwyddyn newydd. Ganwyd Mr. Jones yng Nghwrtnewydd rhyw 35 mlynedd, ac efe eto yn ieuanc, symudodd ei rieni i fyw i ardal Llwynrhydowen, lle yr ymaelododd. Derbyniodd ei addysg golegawl ym llwyddiant wedi dilyn ei ymdrechion mewn llawer o gyfeiriadau. Y mae y casgliadau wedi mwy ua threblu yn ystod ei amser, a'r gynnulleidfa wedi cynhyddu mewn nifer. Yn ystod y rhyfel ymunodd dros gant o fobl ieuainc yr eglwys a'r fyddin a'r llynges, a gwnaeth 21 o honynt yr 'aberth mawr.' Y mae Mr. Jones wedi cymeryd dyddordeb dwfn yn

mywyd cymdeithasol y dref, ac ar gyfrif ei wasanaeth a'i ffyddlondeb mewn llawer cylch, gwel ei eglwys a'r dref ei eisiau. Galluogwyd ef i dorri lawr lawer o rhagfarn deimlid at yr Undodiaid mewn llawer cylch, ac y mae iddo roesaw a derbyniad ymhob man.

Gobeithio fod hyn i gyd yn ernes o gyfnod llwyddiannus yn ei faes newydd yng Nghaerdydd. Y mae angen gwr ieuanc ymroddedig ar yr eglwys ar hyn o bryd. O hyn y mae Mr. Jones yn hollol ymwybodol. Oherwydd hyn, yn ddiau, y penderfynnodd ef ddychwelyd i Gymru, ynghyd a'r awydd i fod o wasanaeth i'w wlad ac i'w genedl ei hun. Y mae ei briod hawddgar, yr hon sydd wedi graddio gydag anrhydedd ym Mhrif Ysgol Llundain, wedi bod o wasanaeth mawr yn y lle. Y mae yn aelod o Bwyllgor Addysg swydd Leicester, ac yn aelod o bwyllgorau pwysig eraill. Dymunwn ar i bob llwyddiant eu dilyn yng Nghaerdydd, a llongyfarchwn yr eglwys am ei bod wedi dewis Cymro yn weinidog arni.

CYFAILL.

MARWGOFION.

EBRILL 28, yn 69 mlwydd oed, Mr. James Thomas, North Way, Wavertree, Liverpool. Brodor oedd yr ymadawedig o ardal Tregroes, Llandyssul, ac ymbriododdd a merch i'r diweddar Mrs. James Davies, Cefngwallter, yr hon a'i rhagflaenodd. Ymsefydlodd yn Lerpwl flynyddoedd lawer yn ol, ond hoffai ymweled a'i hen ardal bob blwyddyn hyd y gallodd. Yr oedd ei iechyd wedi ei amharu er ys sawl blwyddyn, ond yr oedd ei feddwl yn dal yn gryf. Darllenai a myfyriai lawer, a mynychai yn gyson yr eglwys Undodaidd yn Hamilton Road. Brawd tawel a diymhongar ydoedd James Thomas, ac yn sefyll yn uchel yn marn y rhai a'i hadnabyddai. Claddwyd yr hyn oedd farwol o honno yng Nghladdfa Gyhoeddus, Kirkdale, Lerpwl, ei weinidog, y Parch. J. L. Haigh yn gwasanaethu. Gadawodd ddwy ferch mewn galar o'i golli.

HYDREF 12, bu farw Eleanor Jones, gweddw y diweddar David Jones, gynt o'r Alltgoch, ger Cwrtnewydd, yng Nglyncoch, ger Brynhafod, ar ol cystudd byr, yn 86 oed. Ar farwolaeth ei phriod ychydig flynyddoedd yn ol, aeth i fyw at ei merch a'i mab yn nghyfraith yn y lle uchod, a chanddynt cafodd bob gofal a thynerwch. Mwynhaodd iechyd da ar hyd ei hoes, hyd o fewn i ychydig flynyddoedd i'w marwolaeth, pryd y dechreuodd effeithiau henaint ddod yn amlwg arni. Dygodd i fyny nifer luosog o blant, yr oll ohonynt erbyn hyn mewn amgylchiadau cysurus. Yr oedd yn un a fawr hoffid gan gylch eang o adnabyddiaeth; o hyn cawd prawf ddydd ei hangladd yn lluosogrwydd y rhai ddaethant ynghyd i hebrwng ei gweddillion i Gladdfa Capelygroes. Gwasanaethwyd yn y tŷ ac wrth y drws gan y Parchn. Lewis Williams a Glyn Edwards; pregethwyd yn y capel gan y Parch. D. Evans, Gweinidog y lle, a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. Conwil Evans.

HYDREF 23, yn 43 oed, bu farw Mary (Maisie), annwyl briod Mr J. C. Edmunds, Cyfreithiwr, Llandilo, ar ol cystudd maith a chaled. Merch ydoedd i'r diweddar Evan a Mary

Jones, o'r Waunany, ger Llanwnen ; ac yr oedd iddi yn nyffryn y Rannell lawer o gyfoedion ac adnabyddiaeth heblaw nifer luosog o berthynasau, yr agosaf o'r rhai yw Mrs. Jenkins, Maesnewydd, a Mrs Thomas, Llwyn, chwiorydd ei mam. Yr oedd wedi ymadael o'r gymydogaeth er's llawer o flynyddoedd, ac wedi ymsefydlu yn Llandilo gyda'i modryb a'i chwaer. Heblaw'r priod a'r chwaer gadawodd ddau blentyn a brawd—y Parch. E. Lewis Jones, M.A., mewn galar dwys ar ei hol. Siomedigaeth fawr oedd iddynt ei cholli mor gynnar ; a chydymdeimlir â hwynt yn eu galar gan gylch eang o berthynasau ac adnabyddiaeth. Cyn symud o honi i Landilo ymaelododd yng Nghapelygroes, a theimlai ddiddordeb yn yr achos yno hyd y diwedd. Dydd Iau dilynol dygwyd ei gweddillion i gladdfa'r teulu ym mynwent Eglwys Llanbedr. Er mai anghyhoedd oedd y cynhebrwng, daeth nifer luosog o Landilo i Lanbedr ddydd ei hangladd. Gwasanaethwyd gan yr Archddiacon Williams, Llandilo.

TACHWEDD 8, yn 81 oed, bu farw Elizabeth Williams, annwyl briod Evan Williams, Bryndeiw, Llanwnen, gan adael mewn galar dwys ar ei hol briod a phump o blant. Byr fu ei chystudd olaf ; er na fu iddi iechyd cryf er's amryw flynyddoedd, eto, hyd y pythefnos olaf bu'n alluog i gyflawni ei goruchwylion arferol. Yr oedd ei phriod a hithau wedi cydfyw am y tymhor hir o drigain mlynedd, a bu'n briod a mam ffyddlon, dyner a gofalus o'i theulu ; ac o edrych yn ol dros ei bywyd ni chânt ond atgofion melus, mor bell ag oedd a fynno hi a hynny ; a chysur ydyw hyn iddynt yn adeg ei cholli. Ei chartref iddi hi oedd ei theyrnas, a gwnai bopeth fedrai i'w wneud idd ei theulu y lle mwyaf cysegredig ar y ddaear. Ni chyfyngai ei daioni, ychwaith, i'w theulu ; fe'i bendithir gan gannoedd o blant ysgol ddyddiol Llanwnen am y rhan fwyaf o'i bywyd am ei charedigrwydd yn darparu lluniaeth iddynt hanner dydd, yn ogystal ag am lawer o weithredoedd caredig eralll ; a diameu y teimlir chwithdod gan yr oll ohonynt sydd fyw gan y newydd am ei marwolaeth. Cymydoges dawel, di-son-am-dani ydoedd, ac nid oedd na dichell na dig yn ei chalon. Ymgysured y teulu oll yn y gobaith am ail-gyfarfod. Cymerodd y gladdedigaeth (anghyhoedd) le y dydd Llun dilynol yng Nghapelygroes. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. D. Evans, Gweinidog y lle ; pregethwyd yn y capel oddiar y geiriau, " Ei phlant a godant, ac a'i galwant yn ddedwydd (yn wynfydedig); ei gwr hefyd, ac a'i canmol hi " (Diar. 31 : 28) ; gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. L. Williams.

HYDREF 25, yn 29 mlwydd oed, Willie H. Evans, Glynmeirch, Trebanos. Yr oedd Willie Evans yn un o bump o blant. Digwyddasant golli tad a mam yn fore iawn, ac nid hawdd ydyw teithio wedi yr êl y llywyddion ymaith. Mae'r ffordd yn arw'n aml pan fo cynghor a chyfarwyddyd mam a thad megis mur o'n cylch ; ond wedi tawelu o'r rhain, mae'n wahanol yn fynych. Gwanychodd ei iechyd yntau hefyd, a chydrhwng y ddwy donn gyrwyd llestr ei fywyd oddiar y llwybr. Teimlwn i gydymdeimlad yr ardal, er y cyfan i gyd, fod gyda'r bachgen ifanc. Yr oedd yn fachgen hynod o ffein, a gwyddom iddo lawer tro ddymuno'n dda o galon i ereill. Claddwyd ef, o dŷ ei chwaer, Mrs. Lewis, Glynmeirch, Trebanos, yn Gellionen, y Sadwrn dilynol, a gweinyddodd y Parch. D. G. Rees, yn dyner a thoddedig. Nodded ac amddiffyn Ior y nef fyddo ar y ddau frawd a'r ddwy chwaer y sydd ar ol.

HYDREF 30, yn 4 mis oed, Margaret, geneth fechan George a Dilla Hartnell, Trebanos. Yn sydyn iawn y tarawyd y rhian fach yn glaf, pryd nad oedd ond argoelion dymunol am dani ym misoedd bore'i bywyd. Ac ni fu ond ychydig oriau cyn iddi groesi'n ffin, a glanio, i'n tyb ni, ar lan y Ganaan nefol. Erys hiraeth

o'i hol, er yn fechan. Ffarwel, mwy, i Fargaret, cofiwn am dani, am iddi droi i mewn i weled sut yr ydym. Teithiodd rhag ei blaen. Awn ninau ati yn y man. Claddwyd ym mynwent Sant Pedr, Pontardawe, a gwasanaethodd y Parchn. D. G. Rees, Trebanos, a — Jones, Ciwrad, Pontardawe. Bydded i'r teulu godi eu golygon at Dduw ein tadau, ac ymddiried ynddo ef.

TACHWEDD 9, Jane, annwyl briod John Evans, Derwydd, Llanfihangel-ar-Arth, a merch henaf y diweddar William a Mary Jones, Gelliaur, Llandyssul, yn 61 oed. Bu Mrs. Evans a'r teulu yn byw am flynyddoedd yn Nantymoel, ond ychydig gyda thair wythnos cyn ei marwolaeth gadawsant Nantymoel, a daethant i fyw i'r lle uchod. Bu'n gwaelu am fisoedd lawer, a'r haf diweddaf treuliodd wythnosau ar yr hen aelwyd yn Gelliaur yn y gobaith y gwnai newid awyr ddaioni iddi. Yn y diwedd dychwelodd i'r wlad i fyw yn gyfangwbl ac i'r unig bwrpas o geisio estyn ei dyddiau ar y ddaear, ond ofer fu'r ymdrechion i gyd, canys ar y dydd uchod ehedodd ei hyspryd at yr Hwn a'i rhoes. Claddwyd yr hyn oedd farwol o honi y dydd Mawrth dilynol yn ymyl bedd merch fechan annwyl iddi yn mynwent Llwynrhydowen. Daeth tyrfa luosog iawn o berthynasau a chyfeillion ynghyd i dalu eu teyrnged olaf o barch iddi, ac i ddangos eu cydymdeimlad a'r rhai sydd wedi eu gadael i wylo ei cholli. Gwasanaethwyd gan y Parchn. J. T. Hughes, Ficer, Llanfihangel-ar-Arth; T. L. Roderick, (M.C.), Pencader; a L. Williams, Alltyplacca. Pan yn byw yn yr ardal bu Mrs. Evans yn nodedig am ei gweithgarwch a'i ffyddlondeb i'r achos yn Llwynrhydowen. Ar gyfrif ei hamrywiol dalentau a'i medr bu yn alluog i roi gwasanaeth gwerthfawr gyda phopeth sy'n ymwneud a bywyd a llwyddiant eglwys. Bu'n ffyddlon a blaenllaw gyda'r canu; llafuriodd bron yn hollol o honi ei hun i ddysgu chwareu yr *harmonium* er mwyn bod o wasanaeth, ac am flynyddoedd hi oedd chwareuydd yr offeryn hwnnw. Profodd ei hun yn fedrus hefyd fel athrawes yn yr Ysgol Sul, a chiedwn fod llawer yn ddyledus iddi am hyfforddiant a ddeibyniwyd oddiar ei llaw yn y dyddiau a fu. Carai'r achos: prawf arall o hynny yw mai wedi mynd i Nantymoel i fyw, a buont yn byw yno am flynyddoedd, nid esgeulusodd hi a'i theulu gofio'r achos yn y Llwyn Tanysgrifient yn gyson a rheolaidd at yr achos tra buont yno. Wele hi bellach wedi mynd, ac mae ei lle yn wag, yn neilldiol felly yn y cartref. Cydymdeimlir yn fawr a'r priod a'r ferch sydd wedi eu gadael mor unig. Cydymdeimlir hefyd a'r brawd a'r chwiorydd. Ein gweddi yw ar i'r aden ddwyfol gael ei thaenu drostynt.

"Mae'n felus meddwl wedi hyn
Cawn gwrddyd yn y nef."

MANION AC HANESION.

ALLTYBLACCA, CAPELYBRYN A'R CWM.—Gwasanaethwyd yn y Cyfarfod Diolchgarwch yn y blaenaf gan y Parch. D. Evans, Cribyn; yn yr ail gan y Parch. D. Morris Jones, Drefach, ac yn yr olaf gan y Parch. T. O. Williams, B.A., Llanbedr.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Yn y Graig, nos Sadwrn, Sul, a nos Lun, Hydref 28, 29, a 30, y cynhaliodd yr

Eglwys uchod ei Chyfarfodydd Pregethu. Ffodus fuom i gael hin weddol oer fel y gallai llonaid capel o bobl deimlo'n gartrefol, yn hytrach na gorfod gwrando traethiad yr Efengyl tan wres llethol. Gwnawd y casgliadau arferol, y waith yma i helpu i gwrdd a'r treuliau i bwrcasu llestri cymundeb unigol. Pregethodd y Parchn. Lewis Williams a T. Arthur Thomas gyda nerth a dylanwad nas anghofir yn fuan.——Bydd yn dda gan luaws ddarllenwyr YR YMOFYNYDD gael ar ddeall fod yma Gymdeithas newydd ei ffurfio tan nawdd pobl ieuainc y Capel, a'r ardal, ran hynny. Bydd yma, felly, gyfle i bawb i arferid pob talent lenyddol, ac i ymarfer mwy i feddwl, ysgrifennu, a darllen. Cawd eisoes bapurau da gan y Parchn. L. G. Lewis, Adulam, Pontardawe; D. G. Rees, Graig, a T. V. Evans, Clydach, a disgwylir am bethau mawrion eto yn y dyfodol agos. Deallaf mai Gweinidog y lle yw cadeirydd y Gymdeithas, a Mr. Hopkin Jones yn ysgrifennydd. Llwyddiant.

LLANDYSSUL. — Ar ddiwedd y gwasanaeth nos Sul, Tachwedd 26, gwnaeth y Gweinidog gyfeiriad at ymadawiad Superintendent Daniel Thomas i Aberystwyth. Llongyfarchodd Mr. Thomas ar ei ddyrchafiad yn yr heddlu, a diolchodd iddo am ei gefnogaeth a'i ffyddlondeb, yn enwedig gyda'r Ysgol Sul. Bydd ei symudiad yn golled fawr i Eglwys y Graig. Atebodd Mr. Thomas mewn geiriau pwrpasol. Dadganodd ei ofid am fod rhaid iddo ymadael ag Eglwys y Graig, ac annogodd y bobl ieuainc yn arbennig i fwy o ffyddlondeb a gweithgarwch.

Y GYMANFA GANU. — Y mae rhaglen Cymanfa Ganu Undodiaid Ceredigion am 1923 allan o'r wasg, ac o edrych drosti, credwn ei bod yn rhagori ar rai gafwyd yn y gorffennol. Nis gwn pa amcan gyrhaeddir wrth argraffu yr un tonau flwyddyn ar ol blwyddyn, a'r rhai sydd bellach yn hollol gyfarwydd inni. Pa amcan sydd wrth gyhoeddi tonau fel "Cwmavon," "Builth," "Dolydd Eang," &c., y rhai, bellach, sydd mor gyfarwydd a'r "Hen Ganfed"? Y mae yna gynnifer o donau da i'w cael nad ydynt eto yn wybyddus ini. Ofnwn hefyd nad yw y gofal priodol yn cael ei roddi i'r emynau. Nid ydys, yn debyg, yn cymeryd yr un drafferth ond yn unig gyda'r tonau. Anghofir mai yr emyn ydyw y pwysicaf. Priodol fyddai cymeryd pob gofal o droi allan y goreu posibl.

FFURF-WASANAETH YR YSGOL SUL.—Y mae yna lyfryn bychan newydd ei gyhoeddi gan wasg YR YMOFYNYDD fydd yn debyg o fod yn ddefnyddiol iawn gan aelodau yr Ysgol Sul. Y mae llawer un wedi teimlo ei anallu lawer gwaith i gymryd rhan yn agor a diweddu yr Ysgol. Y mae y llyfr bychan hwn yn help i'r cyfryw. Cynnwysa, yn ychwanegol at ffurf-wasanaethau, nifer o weddïau addas i ddechreu a diweddu'r Ysgol. Yr amcan wrth ei gyhoeddi ydyw cael rhagor o ddefosiwn a rhagor o drefn i'r rhan hon o waith yr Ysgol Hyderwn y gwna pob Ysgol ei fabwysiadu yn ddioed. Golygwyd y llyfr gan y Parch. David Evans, Cribyn.

GAIR YN EI BRYD.—Ar gais y rhai a glywodd y papur o dan y penawd uchod yn Hen Dy Cwrdd, Aberdar, cyhoeddir ef yn y rhifyn hwn. Gwahoddir unrhyw un i draethu ei farn dros neu yn erbyn yr hyn gynhwysa. Hyderwn y ceir ymdrafodaeth fuddiol ar y pwnc.

AR BEN Y LÔN.

Ar ben y Lôn mae'r Garreg Wen
Yr un mor wen o hyd,
A phedair ffordd yn mynd o'r fan
I bedwar ban y byd.

Y rhosdir eang deifl hud
Ei liwiau drud o draw;
A mwg y mawn i'r wybren gwyd
O fwthyn llwyd gerllaw.

Ar ben y Lôn ar hwyr o haf
Mi gofiaf gwmni gynt,
Pob llanc yn llawn o ddifyr ddawn,
Ac ysgawn fel y gwynt.

Ar nawn o Fedi ambell dro
Amaethwyr bro a bryn
Oedd yma'n barnu'r gwartheg blith
A'r haidd a'r gwenith gwyn.

Ac yma, wedi aur fwynhad
Tro lledrad ger y llyn,
Bu llawer dau am ennyd fach
Yn canu'n iach cyn hyn.

O gylch hen Garreg Wen y Lôn
Bu llawer son a si ;
Ond pob cyfrinach sydd dan sel
Ddiogel ganddi hi.

Y llanciau a'r llancesau glân
Oedd gynt yn gân i gyd
Aeth hyd y pedair ffordd o'r fan
I bedwar ban y byd.

Ble'r aeth y gwŷr fu'n dadleu 'nghyd
Rinweddau'r ŷd a'r ŵyn !
Mae'r ffordd yn arwain dros y rhiw
I erw Duw ar dwyn.

Mi brofais fyd, ei wên a'i wg
O olwg mwg y mawn ;
Mi welais ddrycin yn rhyddhau
Ei llengau pygddu llawn.

Ar ben y Lôn mae'r Garreg Wen,
Yr un mor wen o hyd,
A dof yn ol i'r dawel fan
O bedwar ban y byd.

* * * * *

SARNICOL.

DADORCHUDDIR

MEINI COFFA

I'R DIWEDDAR

Barch. JENKIN LLOYD JONES, Ll.D.,

CHICAGO

Dydd Mercher, Rhagfyr 6fed, 1922.

Yn y bore am 10.30, dadorchuddir Maen Coffa ym MLAENRALLTDDU (ei le enedigol), gan ei gefnder, Mr. THOMAS THOMAS, Cross Inn Farm.

Am 2 yn y prynhawn, yng NGHAPEL PANTDEFAID, dadorchuddir Maen arall, gan Mrs. THOMAS THOMAS, Y Bryn, Llanybyther.

Traddodir Annerchiadau gan amryw.

Cynhelir Gwasanaeth yn yr hwyr, am 6 o'r gloch, pryd y pregethir gan y Parchn. D. G. REES, Gellionen, a T. OSWALD WILLIAMS, B.A., Llanbedr.

Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb i'r Cyfarfodydd arbennig hyn.

Llandyssul. **T. ARTHUR THOMAS.**

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

JUST PUBLISHED.

Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS,
. . . LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c. . . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist,
Carmarthen. Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES
BRADFORD HOUSE
LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —

LONDON JOINT CITY AND MIDLAND BANK LIMITED

CHAIRMAN:

The Right Hon. R. McKenna

JOINT MANAGING DIRECTORS:

Frederick Hyde **Edgar W. Woolley**

Subscribed Capital	**£38,117,103**
Paid-up Capital	**10,860,852**
Reserve Fund	**10,860,852**
Deposits *(June 30th, 1922)* ..	**368,230,831**

Local Offices:

Llandyssul: 9, Lincoln Street

PENCADER | PONTTWELLY

Manager: R. W. ROBERTS

Over 1,650 Offices in England and Wales

Head Office:

5, Threadneedle Street, London, E.C.2